

Polisi Tai Bach 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael i'r gymuned ysgol gyfan. Mae wedi'i chymeradwyo gan lywodraethwyr a dysgwyr yr ysgol, ac mae ar gael ar wefan yr ysgol.

Nodau

- Galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.
- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol gyfan.

Rhesymeg: Pam ein bod yn ysgrifennu'r polisi hwn?

- Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein dysgwyr ac rydyn ni am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.

Amcanion: Beth ydyn ni am ei gyflawni?

Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan – rheolwyr yr ysgol, staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.

Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddysgwyr drwy gydol y diwrnod ysgol. Rydyn ni am sicrhau gall dysgwyr eu defnyddio unrhyw bryd.

- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwylidig, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anghenion arbennig, gyda goleuadau, gosodiadau a ffitiadau digonol.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion pob dysgwr o gymunedau ethnig a chrefyddol, a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.
- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr o ran yr hyn gellir ei weld a'i glywed, gan sicrhau bod cyflenwad wrth gefn ar gael o gloeon ar gyfer drysau'r ciwbiclau.
- Sicrhau bod bob amser gan bob ardal doiledau gyflenwad a gynhelir yn briodol o ddwr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau ym mhob ciwbicl, sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.
- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf yn nhai bach y merched yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae cynnyrch iechydol ar gael yn yr ysgol.
- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwyllo ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Gosod cyflenwadau dwr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol, ac nid mewn ardaloedd toiled.
- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglyn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r dysgwyr ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio ag unrhyw broblemau a amlygir gan y dysgwyr yn brydlon.
- Mynd ati'n weithredol i ymgynghori â'r dysgwyr a'u cynnwys yn y gwaith oreoli'r toiledau (drwy gyngor yr ysgol neu sefydlu gweithgor).

- Annog dysgwyr i barchu'r toiledau a'i gilydd (drwy gyngor yr ysgol, mewn gwersi ABCCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth, ac annog dysgwyr i sefydlu Cod Ymddygiad Dysgwyr ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.
- Darparu ardaloedd cymdeithasol dan do er mwyn atal yr arfer o ddefnyddio toiledau at ddibenion o'r fath.
- Gweithredu a chynnal adolygiadau blynyddol o'r polisi i fonitro p'un a yw'n cael ei ddilyn a ph'un a yw'n parhau yn berthnasol.

Nodiadau

- Lluniwyd y ddogfen bolisi hon mewn ymgynghoriad â dysgwyr, staff yr ysgol a llywodraethwyr yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn cefnogi'r nod o ddarparu mynediad agored i gyfleusterau toiled glân, preifat a diogel, sydd mewn cyflwr da, drwy gydol y diwrnod ysgol.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: *Nona Gruffudd-Evans*

Pennaeth: *Dewi Rees*

Dyddiad: 26/01/23